

Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-14-01(p.5)

Dyddiad:	Dydd Mercher, 24 Hydref 2001
Lleoliad:	Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Teitl:	Diheintio Offer Meddygol: Canlyniad yr Archwiliad a Manylion Bwrdd y Prosiect a'r Flaenraglen Waith

DIBEN

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ganlyniad yr Archwiliad ar Ddiheintio Offer Meddygol, a sôn am sefydlu Bwrdd y Prosiect a'r flaenraglen waith.

ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r canlynol:

- canfyddiadau'r Adroddiad Archwilio a nodir isod (mae'r Adroddiad llawn a'r Crynodeb Gweithredol yn nogfen 1)
- aelodau Bwrdd y Prosiect a'r flaenraglen waith

AMSERU

Yng nghwrs arferol busnes.

CEFNDIR

Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol Enseffalopathi Sbwngffurf (SEAC) wedi nodi perygl damcaniaethol o drosglwyddo proteinau prion vCJD yn ystod llawdriniaethau. Nododd hefyd ei bod yn bosibl nad yw'r broses sterileiddio'n cael gwared arnynt yn llwyr.

Yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (99) 157 tanlinellwyd pwysigrwydd rhoi canllawiau ar waith ar lanhau a sterileiddio offer meddygol, gan fod hynny'n holl bwysig er mwyn lleihau perygl trosglwyddo heintiau. Nodwyd yng Nghylchlythyr Iechyd (99) 158 ei bod yn hanfodol glanhau offer llawfeddygol cyn eu sterileiddio er mwyn lleihau perygl trosglwyddo vCJD wrth gynnal llawdriniaethau.

Ym mis Ionawr 2001 anfonwyd Cylchlythyr Iechyd (2001) 04 at Ymddiriedolaethau NHS, Practisau Meddygol a Phractisau Deintyddol, er mwyn nodi'r ffactorau a allai fod yn beryglus o ran trosglwyddo heintiau. Rhoddwyd deunydd archwilio i'r rhai a dderbyniodd y Cylchlythyr, a gofynnwyd iddynt gynnal hunan-archwiliad o'r polisïau a'r gweithdrefnau a arferir ganddynt a rhoi gwybod i'r Cynulliad am eu canfyddiadau. Gofynnwyd hefyd iddynt gadarnhau naill ai eu bod wedi mynd i'r afael â'r peryglon neu eu bod wrthi'n llunio cynlluniau gweithredu.

CANFYDDIADAU'R ARCHWILIAD

Mae'r berthynas waith dda rhwng y Cynulliad a'i bartneriaid yn y maes hwn, megis Ystadau'r NHS, Unedau Sterileiddio a Diheintio mewn Ysbytai, yr Asiantaeth Offer Meddygol (MDA), gofal sylfaenol ac Adrannau Iechyd eraill y DU, wedi bod yn fodd i ni weld beth yw'r sefyllfa ledled Cymru a phrofi ein tybiaethau yn erbyn gweddill y DU. O ystyried canfyddiadau'r Archwiliad, a oedd yng Nghymru'n cynnwys Gofal Meddygol a Deintyddol Sylfaenol, credwn fod ein gwybodaeth flaenorol yn eithaf cywir.

Wrth baratoi at yr Archwiliad, aethom ati i gysylltu â chynrychiolwyr y Pwyllgorau Meddygol a Deintyddol Cyffredinol. Lleddfwyd rhywfaint ar eu pryderon a chryfhawyd y gwaith a wneir gennym mewn partneriaeth a'n hymrwymiad i wella gwasanaethau ledled Cymru.

Cafwyd tua 430 o ymatebion, a hynny o blith y 1265 a allai fod wedi ymateb ledled Cymru. Ar y cyfan, nodwyd mai dulliau rheoli systemau diheintio a diffyg prosesau archwilio parhaus yw'r gwendidau mwyaf. Soniodd 55% o'r Ymddiriedolaethau am gyfleusterau annigonol, ac efallai fod hynny'n ganlyniad i'r ffaith na fuddsoddodd rhai o'r Ymddiriedolaethau ddigon o arian yn y gwasanaethau cynnal dros y blynyddoedd. Nid oedd 60% o'r Ymddiriedolaethau, 55% o feddygon teulu a 25% o ddeintyddion wedi archwilio priodoldeb eu cyfleusterau. Roedd gwaith archwilio ar offer un-tro a rhaglenni hyfforddi ar gyfer offer un-tro hefyd yn wael.

Bydd angen mynd i'r afael â chofnodi gwaith archwilio/cynnal a chadw'r broses ddiheintio. Ym mhob un o'r tri phrif faes a archwiliwyd (Practisau Meddygol Cyffredinol, Practisau Deintyddol Cyffredinol ac Ymddiriedolaethau) roedd tua hanner yr ymatebion yn rhai negyddol. Er mwyn gallu mynd ati i leihau perygl damcaniaethol trosglwyddo CJD bydd yn bwysig ein bod yn gallu olrhain setiau o offer ac yna, yn y pen draw, offer unigol. Gall 40% o Ymddiriedolaethau olrhain setiau. Ychydig iawn o feddygon teulu a deintyddion sy'n gallu gwneud hynny ar hyn o bryd.

BLAENRAGLEN WAITH

Bydd Bwrdd y Prosiect yn ystyried canlyniadau'r Archwiliad. Y ffordd ficrobiolegol ddelfrydol o sterileiddio a diheintio fyddai naill ai defnyddio offer un-tro neu ddefnyddio prosesau diheintio wedi'u hachredu. Dim ond Unedau Sterileiddio a Diheintio mewn Ysbytai sy'n gallu gweithredu prosesau diheintio hyn yn rhwydd. Mae'n debyg felly y bydd y broses gynllunio'n cychwyn drwy ganolbwyntio ar sicrhau bod yr holl Unedau hynny yng Nghymru'n cyrraedd safonau'r Asiantaeth Offer Meddygol.

Bydd y Bwrdd hefyd yn gweithio gyda'r sectorau gofal meddygol a deintyddol sylfaenol a'u cynrychiolwyr i ddod o hyd i'r atebion gorau i anghenion mewn meysydd penodol. Does dim atebion pendant i gynnig gwasanaeth diheintio ym maes gofal sylfaenol. Y bwriad yw dibynnu llai ar sterilyddion pen mainc a diheintyddion glanhau fal ag a ddisgrifir mewn canllawiau blaenorol. Fodd bynnag, gan fod sawl rhan o Gymru'n anghysbell, ni fyddai'r Bwrdd am ddiystyru'r offer hynny. Pe argymhellid y dylid eu defnyddio, byddai angen cynnal archwiliad i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau. Bydd angen i'r Bwrdd ystyried ffyrdd eraill o ddarparu'r gwasanaeth, e.e. trefniadau cydweithredol i sterileiddio'n lleol, defnyddio gorsafoedd diheintio ledled Cymru, Unedau Sterileiddio a Diheintio newydd mewn ardaloedd anghysbell, darparu mwy o sterilyddion pen mainc a diheintyddion glanhau.

Bydd y Bwrdd yn penderfynu sut i fynd ati i gael gwybodaeth gan yr Awdurdodau Iechyd a'r Grwpiau Iechyd Lleol er mwyn bwydo'r broses gynllunio a sicrhau bod y gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd gorau ar gael.

AELODAU BWRDD Y PROSIECT

Cadeirydd:	Dr Mike Simmons	Y Cynulliad Cenedlaethol
Rheolwr y Prosiect:	Jonathan King/Mike Baird	Atebion Iechyd Cymru
Aelodau:	Richard Phillips (HIMT)	Y Cynulliad Cenedlaethol
	Jeff Lewis (HIMT)	
	Joanne Morgan (HIMT)	

	Catherine Cody (PHPD)	
	Paul Wilkins	Ystadau'r NHS
	Peter Phillips	Dirprwy Gyfarwyddwr, Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol
	Eirlys Phillips	Rheolwyr Unedau Sterileiddio a Diheintio
	Jim Sim	
	Jenny Martin	
	Cynrychiolydd BMA (Cymru)	Meddyg Teulu
	Cymrychiolydd BDA Cymru)	Deintydd
	Cynrychiolydd deintyddol	Ymgynghorydd Deintyddol Cymunedol

Rhagwelir y gallai fod o fudd i'r Bwrdd rannu'n grwpiau pwnc i drafod meysydd penodol. Os penderfynir gwneud hynny, fe'i trefnir drwy'r cyrff proffesiynol perthnasol.

CYDYMFFURFIO

Trosglwyddwyd pwerau Deddf y Gwasanaethau Iechyd Gwladol 1977 i'r Cynulliad Cenedlaethol a'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid oes materion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb ynghlwm wrth y cyflwyniad hwn.

GOBLYGIADAU ARIANNOL

Darparwyd £2 filiwn yn y flwyddyn ariannol hon i uwchraddio Adrannau CSSD ledled Cymru, a threfnir gwariant 2001-02 yn y gyllideb ar gyfer Gwella Adrannau Cyflenwadau Di-haint Canolog (CSSD) a Diheintio/BEL Gwariant Cyfalaf Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd. Cost reolaidd y rhaglen waith yw £6 miliwn dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae Is-adran Gyllid yr NHS wedi gweld y cyflwyniad hwn ac mae'n fodlon nad oes goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad yn deillio ohono.

CAMAU I'W CYMRYD GAN Y PWYLLGOR PWNC

Nodi canlyniad yr Archwiliad, ffurfio Bwrdd y Prosiect a'i flaenraglen waith.

CYSWLLT

Bwrdd y Prosiect a gwaith yn y dyfodol: Jeff Lewis, HIMT est 3987

Yr Archwiliad ar Ddiheintio: Catherine Cody, PHPD est 3395

